

Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Bro Idris 2019-2020

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau a llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD: "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Defnyddir y grant hwn er mwyn rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Y nod ydy cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion o bob cefndir. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

Cefnogaeth bersonol ac ymarferol.

- Darparu cefnogaeth fentora a chefnogaeth bersonol.
- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr ddatblygu i fod yn unigolion hyderus, uchel eu cymhelliant sy'n falch ohonynt eu hunain a'u cymuned leol.
- Sicrhau fod gan ddisgyblion adnoddau addas i lwyddo yn yr ysgol.
- Sicrhau fod disgyblion yn cynnal presenoldeb lefel uchel yn yr ysgol.

Cefnogaeth gwricwlaidd ac addysgol.

- Gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol ym maes llythrennedd a rhifedd yn CA3 a phynciau penodol yn CA4.
- Darparu gwersi ychwanegol, naill ai o fewn amser ysgol, ar ôl ysgol neu/ac ar benwythnosau a gwyliau, er mwyn sicrhau fod disgyblion yn cael cefnogaeth ychwanegol effeithiol.
- Darparu cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion nad yw cwricwlwm arferol ysgol yn addas ar eu cyfer.

Tracio ac asesu

- Tracio cynnydd disgyblion yn ofalus a phenodol, cynllunio ymyrraeth effeithiol gan adolygu gwybodaeth yn rheolaidd.

Hyfforddiant a datblygu systemau.

- Hyfforddi athrawon i dargedu cynhaliaeth yn effeithiol.
- Hyfforddi athrawon a chymorthyddion i hyrwyddo methodoleg ysgolion sy'n annog a meddylfryd twf.
- Hyfforddi cymorthyddion i ddarparu cefnogaeth effeithiol, yn arbennig ym maes llythrennedd a rhifedd.

Yn 2019-2020 rhoddwyd i Ysgol Bro Idris ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £80,400 Mae'r ysgol yn defnyddio eu CDY fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ac mae'r CDY hwn wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GWE.

Meini Prawf	✓	X
Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar.	✓	
Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATH.	✓	
Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn.	✓	
Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth.	✓	
Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant.	✓	
O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3.	✓	
Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion.	✓	
Sicrhau y cyhoeddir pob datganiad GDD ar wefan ysgol / G6.	✓	

Meysydd	Adnoddau cyllidol (Amcan)	Effaith dymunol
Cefnogaeth bersonol ac ymarferol, gan gynnwys cynlluniau ymyrraeth a chefnogaeth a gynigir gan staff Yr Hafan.	£43,000	Gwella lefelau presenoldeb, cymhelliant, ymddygiad, ymdrech a sgiliau annibynol disgyblion Parau i sicrhau adnoddau cynlluniau ymyrraeth a chefnogaeth ar gyfer disgyblion Yr Hafan – cyfrifiaduron, offer a nwyddau coginio ayyb fel nad oes disgyblion yn methu cael mynediad l'r cwricwlwm nac o dan anfantais. Parhau i gyflogi anogwyr dysgu i fod gyfrifol am gyflwyno rhaglenni ymyrraeth a chynlluniau lles disgyblion PYD a disgyblion bregus, ac am lwybrau dysgu disgyblion CA4, a phresenoldeb holl ddisgyblion yr ysgol. Safonau disgyblion, gan gynnwys grwpiau o ddysgwyr targed yn codi o'r herwydd.
Cefnogaeth gwricwlaidd ac addysgol	£25,000	Gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd a phynciol disgyblion yn CA4.
Tracio ac asesu	£4,500	Sicrhau fod adnoddau ac ymyrraeth yn cael eu targedu yn gywir ar gyfer disgyblion targed unigol a bod eu heffaith yn cael ei fonitro'n effeithiol. Cynnydd mewn safonau o ganlyniad i dracio cynnydd effeithiol sy'n arwain at adnabod pryderon yn fuan.
Hyfforddiant, datblygu systemau ac uwch sgilio staff.	£7,900	Sicrhau cynnydd pellach yn arbenigedd a sgiliau staff i addysgu a mentora disgyblion. Datblygu cymorthyddion / annogwyr dysgu.
Cyfanswm:	£80,400	